Dŵr Cymru
Welsh Water

# Datganiad Sicrwydd y Bwrdd

## Taliadau Cyfanwerthu Dangosol 2026/27

Ystyriodd y Bwrdd y taliadau cyfanwerthu dangosol ar gyfer 2026/27 yn ei gyfarfod ar 4 Medi 2025. Nododd y Bwrdd y gofynion o ran taliadau a'r deunyddiau ategol perthnasol, a chyflwynwyd ymholiadau priodol i'r Tîm Gweithredol, ac yn benodol i'r Cyfarwyddwr Strategaeth a Rheoleiddio. Ystyriodd y Bwrdd adroddiad gan Jacobs, oedd wedi cael ei gyflogi i ddarparu sicrwydd allanol bod y systemau a'r prosesau a ddefnyddir i gynhyrchu'r wybodaeth sy'n cael ei chyhoeddi am y taliadau cyfanwerthu dangosol yn gadarn, ac i adolygu'r broses ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth â'r rhwymedigaethau cyfreithiol.

Ar ôl cyflawni'r ymholiadau rhesymol a pherthnasol uchod, gallwn gadarnhau, hyd eithaf ein dealltwriaeth, bod y tariffau a nodir yn Rhestr Taliadau Cyfanwerthu Dangosol Dŵr Cymru 2026/27 yn cydymffurfio â'r amrywiol ofynion cyfreithiol sy'n berthnasol i'r cwmni o dan Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 (fel y'i diwygiwyd) a deddfwriaeth berthnasol arall, yn eu cyfanrwydd.

Paratowyd y ddogfen a'r wybodaeth ychwanegol sy'n ofynnol gan staff profiadol gan ddefnyddio prosesau a system rheoli fewnol priodol, ac maent wedi cael eu paratoi i'r fath safon y gellir ei disgwyl yn rhesymol gan ymgymerydd diwyd.

Gyda'r "Rheolau ar daliadau cyfanwerthu a gyhoeddir gan yr Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr o dan adrannau 66E ac 117I o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991" a gyhoeddwyd ar 21 Hydref 2021 mewn golwg, rydyn ni o'r farn bod ein taliadau'n gyson â'r gofynion hyn, wrth ystyried y rheolau ar gyfer taliadau cyfanwerthu yn eu cyfanrwydd a defnyddio'r wybodaeth orau oedd ar gael ar y pryd.

Cyfrifwyd taliadau dangosol ar sail y Dyfarniad Terfynol ar PR24 a gyhoeddwyd ar 19 Rhagfyr 2024, a ddiweddarwyd yn unol â'n cyflwyniad mewn perthynas â blwyddyn ddall PR24 oedd yn cynnwys data alldro 2024/25. Bydd Ofwat yn cyhoeddi ei Ddyfarniad Terfynol ar y diwygiadau hynny yn Rhagfyr 2025.

Mae'r Bwrdd wedi derbyn gwybodaeth berthnasol ar effeithiau'r tariffau dangosol ar gwsmeriaid sy'n meddiannu safleoedd cymwys. Disgwylir i'r taliadau dŵr ar gyfer cwsmeriaid cymwys gynyddu tua 13% ar sail rhagdybiaeth o ddefnydd cyson, yn amodol ar ragolygon chwyddiant y CPI(H) o 3.8% ym mis Tachwedd.

Mae'r cwmni wedi gohebu â manwerthwyr sy'n gweithredu o fewn y rhanbarth ac wedi ymgysylltu â CCW mewn ffordd amserol ac effeithiol mewn perthynas â'r tariffau cyfanwerthu dangosol.

Jane C Hanson

**Jane Hanson CBE**
**Cadeirydd**

Ar ran y Bwrdd
13 Hydref 2025